| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 26 Gorffennaf 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Barbara Smith |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Catrin Roberts / Andrea Malam |
| **Teitl:** | **Polisïau Cyflogaeth a TGCh** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae nifer o bolisïau cyflogaeth sydd wedi cael eu datblygu/diwygio sydd wedi eu cyflwyno i'r CBYLl ac wedi eu hargymell i'r Cabinet i'w mabwysiadu. (Gweler pwynt 8 isod). Mae'r polisïau wedi'u rhestru isod:

- Polisi Diogelwch Gwybodaeth TGCh (Polisi Diwygiedig)
- Polisi Lles a Chymorth (Polisi Newydd)
- Gweithdrefn Dychwelyd yn Raddol i'r Gwaith (Gweithdrefn Newydd)
- Polisi Teithio (Polisi diwygiedig)

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Argymell bod y Cabinet yn mabwysiadu'r polisïau hyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cael cymeradwyaeth i'r Cabinet fabwysiadu'r polisïau hyn.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Polisi Gwybodaeth a Diogelwch TGCh

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod bod ei adnoddau gwybodaeth yn ased gwerthfawr, sy'n hanfodol wrth gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu gwybodaeth rhag bygythiadau mewnol ac allanol ac yn cydnabod bod rheoli diogelwch gwybodaeth effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau y darperir swyddogaethau a gwasanaethau busnes yn llwyddiannus. Mae'r cyngor yn ymrwymedig i gadw cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd yr holl asedau gwybodaeth ffisegol ac electronig.

Mae'r Polisi hwn yn disodli Polisi Diogelu Gwybodaeth presennol y Cyngor, sydd bellach yn nifer o flynyddoedd oed, ac yn cynnwys diweddariadau sy'n adlewyrchu'r syniadau diweddaraf, y gofynion deddfwriaethol a'r arferion gorau yn y maes hwn. Am y tro cyntaf, mae ein polisi diogelwch gwybodaeth yn cynnwys gweithdrefn torri diogelwch gwybodaeth a gweithdrefn rheoli dyfeisiau. Mae'r Polisi hefyd yn adlewyrchu newidiadau mewn rolau a chyfrifoldebau swyddi sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf o fewn y Cyngor. Mae'r polisi newydd hefyd yn anelu at fod yn haws ei ddarllen drwy gael ei rannu'n adrannau gwahanol, gan

ddarparu hyperddolenni.  Mae hyn yn galluogi i ddarllenwyr fynd yn syth i'r adran sydd ei hangen arnynt.

Polisi Lles a Chymorth

Polisi Iechyd Galwedigaethol newydd yw hwn.

Mae'r cyngor yn ymrwymedig i gynnal amgylchedd gwaith diogel ac iach. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r cyngor yn cydnabod cyfraniad ei staff. Pan fydd staff yn cael problemau sy'n gysylltiedig â gwaith, iechyd neu faterion personol, gall effeithio ar eu perfformiad yn y gwaith yn ogystal ag ansawdd eu bywyd ac ymdeimlad cyffredinol o les.  Mae'r polisi yn tynnu sylw at y cymorth y gall y cyngor ei gynnig i weithwyr.

Mae dau fath o gymorth wedi'u cynnwys yn y polisi fel a ganlyn:

- Gwasanaethau Cwnsela
- Cymorth Therapi Arbenigol ar gyfer cyflyrau Cyhyrysgerbydol

Mae'r ddau wasanaeth yn rhad ac am ddim i'r gweithiwr a bydd unrhyw gostau yn cael eu codi ar y gwasanaeth / adran.  Rhaid i'r tîm rheoli fod yn gydymdeimladol tuag at geisiadau i adael, fodd bynnag, disgwylir bod gweithiwr yn mynd i'r apwyntiadau hyn yn ei amser ei hun oni bai bod gweithiwr yn gallu dangos nad yw'n gallu mynychu y tu allan i'w oriau gwaith arferol. Mewn achosion o'r fath, gall rheolwyr roi amser i ffwrdd gyda thâl i'w gweithwyr fynd i apwyntiad.

Gweithdrefn Dychwelyd i'r Gwaith yn Raddol

Mae hwn yn Bolisi Iechyd Galwedigaethol newydd sy'n cydnabod y gall staff sydd wedi dioddef cyfnod hir o absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch neu anaf fod angen cymorth penodol wrth ddychwelyd i'w horiau a'u dyletswyddau gwaith arferol. Ei nod yw helpu staff mewn amgylchiadau o'r fath i ddychwelyd i'r gwaith mewn ffordd effeithiol a chynhyrchiol nad yw'n peryglu eu hadferiad neu eu hiechyd yn yr hirdymor, drwy sicrhau mesurau priodol i gefnogi ailsefydlu.

Mae'r weithdrefn hon yn nodi'r paramedrau eang lle caiff rhaglen dychwelyd i'r gwaith yn raddol ei chefnogi a'i rheoli. Dylid darllen y weithdrefn hon ar y cyd â'r Weithdrefn Presenoldeb yn y Gwaith.

Bydd unrhyw raglen dychwelyd yn raddol i'r gwaith y cytunir arni yn gyfyngedig o ran amser ac fel arfer bydd rhwng 2-4 wythnos, a dim mwy na 4 wythnos. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y caiff yr amserlen hon ei hymestyn, er enghraifft, lle bydd cyngor meddygol yn awgrymu bod hyn yn briodol tra'n cael triniaeth feddygol ymyrrol.

Polisi Teithio

Mae'r polisi diwygiedig yn cynnwys amserlenni, cyfrifoldebau ac mae pob ychwanegiad newydd wedi'u hamlygu mewn melyn.  Mae'r polisi yn annog gweithwyr a rheolwyr i feddwl am y siwrneiau maent yn ymgymryd â hwy ar fusnes y cyngor ac am ffyrdd amgen posibl i gynnal busnes heb yr angen i deithio.

Mae'r polisi'n cyfeirio at wahanol ddulliau o deithio ar gyfer teithiau o dan a dros 100 milltir ac yn cyfeirio at gyfraddau cynhaliaeth ac aflonyddwch a lle i ddod o hyd i'r wybodaeth honno.

Mae cwblhau ffurflen DVLA796 wedi cael ei wneud yn orfodol i bob gweithiwr newydd a phresennol, a fydd yn galluogi'r cyngor i wirio a ganiateir i'r gweithiwr yrru ac a yw'n meddu ar drwydded ddilys gyfredol.

Mae'r ffurflen hawlio costau teithio/milltiroedd presennol ar bapur ar hyn o bryd ac yn berthnasol i'r polisi hwn, fodd bynnag, yn y dyfodol agos, rydym yn edrych ar weithredu dull electronig o hawlio milltiroedd trwy Proactis. Bydd angen newid ychydig ar y polisi pan fydd y broses hon yn cael ei chyflwyno.

Cyfeiriwch at bolisïau a gynhwysir yn yr atodiad.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd pob un o'r polisïau uchod yn cynorthwyo'r Blaenoriaethau Corfforaethol drwy helpu i foderneiddio'r cyngor drwy sicrhau bod rheolwyr a gweithwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau yn unol â deddfwriaeth ac arfer da.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes angen adnoddau ychwanegol, felly ni fydd unrhyw gostau ynghlwm wrth weithredu'r polisïau hyn. Ni fydd unrhyw effaith benodol ar adran arbennig. Bydd y polisïau yn berthnasol i bob aelod o staff (lle nodir).

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Gweler yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn amgaeedig. Nid oes unrhyw faterion sylfaenol a amlygwyd gyda'r Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r polisïau i gyd wedi bod i'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol ddydd Iau 19 Mai a dydd Mercher 15 Mehefin ar gyfer sylwadau ac wedi eu hanfon dros e-bost i'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol am adborth gan aelodau'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol nad oedd wedi mynychu'r cyfarfodydd hynny ac felly mae'r holl aelodau wedi cael cyfle i roi adborth.

Cyflwynwyd y dogfennau i Gydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar 29 Mehefin 2016. Yn anffodus, gan fod y cyfarfod ddim yn cworwm, fe drafododd ochr y Cyflogwr y dogfennau a gwneud newidiadau. Cytunwyd y rhain wedyn drwy e-bost gyda ochr y Gweithwyr cyn eu cyflwyno i Cabinet i'w fabwysiadu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r risgiau yn gysylltiedig â pheidio â gweithredu'r polisïau ynghlwm yn unig. Mae'r fersiynau cyfredol o'r polisïau yn hen iawn ac mae proses a gweithdrefnau newydd angen polisi/gweithdrefn i sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn gyson.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Amherthnasol